




Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Diwygio hawliadau mesothelioma:

Ymateb y Llywodraeth i ymgynghoriad am gynigion i gyflymu'r broses o setlo hawliadau mesothelioma yng Nghymru a Lloegr

Cyhoeddwyd yr ymateb hwn ar 6 Mawrth 2014





Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

Diwygio hawliadau mesothelioma:

Ymateb y Llywodraeth i ymgynghoriad am gynigion i gyflymu'r broses o setlo hawliadau mesothelioma yng Nghymru a Lloegr

Ymateb i ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder:
www.justice.gov.uk

Cynnwys

Cyflwyniad a manylion cyswllt	4
Rhagair y Gweinidog	5
1. Cyflwyniad	7
2. Crynodeb o'r ymatebion	8
3. Gwneud penderfyniadau cyflym am hawliadau mesothelioma	8
4. Protocol Cyn Gweithredu Mesothelioma	9
5. Porth Hawliadau Mesothelioma Diogel	13
6. System gostau fwy effeithlon	15
7. Adolygiad dan adran 48 Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) 2012.	18

Diwygio hawliadau mesothelioma: Ymateb y Llywodraeth i ymgynghoriad am gynigion i gyflymu'r broses o setlo hawliadau mesothelioma yng Nghymru a Lloegr

Diwygio hawliadau mesothelioma: Ymateb y Llywodraeth i ymgynghoriad am gynigion i gyflymu'r broses o setlo hawliadau mesothelioma yng Nghymru a Lloegr

Cyflwyniad a manylion cyswllt

Y ddogfen hon yw adroddiad ôl-ymgynghoriad y papur ymgynghori, 'Diwygio hawliadau mesothelioma'.

Mae'n cynnwys y canlynol:

- cefndir yr adroddiad.
- crynodeb o'r ymatebion i'r adroddiad.
- ymateb manwl i'r cwestiynau penodol a ofynnwyd yn yr adroddiad.
- y camau nesaf ar ôl yr ymgynghoriad hwn.

Gellir cael copïau ychwanegol o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori drwy gysylltu â **Diane Wheeler** yn y cyfeiriad isod:

**Civil Justice Reform Team
Ministry of Justice
102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ**

Rhif ffôn: 020 3334 6289

E-bost: mesotheliomamojpolicyteam@justice.gsi.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael ar wefan y Weinyddiaeth yn: <https://consult.justice.gov.uk/>

Gallwch ofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn ar fformatau amgen drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost uchod neu drwy ffonio 020 334 6289.

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

Rhagair y Gweinidog



Mae mesothelioma ymledol yn glefyd galwedigaethol trasig o unigryw ac angheuol. Mae symptomau'n aml yn datblygu 30-40 mlynedd ar ôl dod i gysylltiad ag asbestos, ond ar ôl cael diagnosis, mae canolrif disgwyliad oes dioddefwyr mor fyr â 7 i 9 mis. Ac ystyried y ffeithiau ysgytwol hyn, mae'r Llywodraeth hon wedi ceisio canfod beth y gellir ei wneud i wella proses hawliadau iawndal mesothelioma i ddioddefwyr a'u dibynyddion.

Dyna pam y bu'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, rhwng 24 Gorffennaf a 2 Hydref 2013, yn ymgynghori am gynigion penodol gyda'r bwriad o wella effeithlonrwydd a, lle bo angen, cyflymder y broses i hawlwr adennill iawndal mewn achosion lle mae cyflogwr neu yswiriwr atebol wedi'i olrhain.

Cafodd yr ymgynghoriad ychydig dros 100 o atebion, ac roedd hefyd yn ymwneud ag adolygiad yr Arglwydd Ganghellor, a oedd yn ofynnol dan adran 48 Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) 2012, o effaith debygol defnyddio'r diwygiadau cytundeb ffioedd amodol a gynhwysir yn Rhan 2 y Ddeddf honno ar gyfer hawliadau mesothelioma.

Mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 4 Rhagfyr 2013, amlinellodd fy nghyd-Weinidog Shailesh Vara AS fwriadau'r Llywodraeth yn y dyfodol ar gyfer cynigion yr ymgynghoriad yng ngoleuni'r ymatebion.

Ar ôl yr adolygiad, rydym wedi penderfynu defnyddio adrannau 44 a 46 Deddf LASPO (y diwygiadau LASPO) ar gyfer achosion mesothelioma ymledol, fel ar gyfer pob achos anaf personol arall.

Mae'r Llywodraeth yn cynnig dechrau'r diwygiadau LASPO ar yr un pryd ag y byddant yn gwneud y taliadau cyntaf dan y Cynllun Taliadau Mesothelioma Ymledol. Disgwylir y bydd hyn ym mis Gorffennaf 2014.

Sefydlwyd y Cynllun Taliadau Mesothelioma Ymledol gan y Llywodraeth drwy gyfrwng Deddf Mesothelioma 2014, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 30 Ionawr 2014. Mae'r Cynllun wedi'i ariannu gan yswirwyr Atebolrwydd Cyflogwyr, a bydd yn galluogi dioddefwyr mesothelioma sy'n methu â dod o hyd i gyflogwr atebol neu yswiriwr Atebolrwydd Cyflogwyr atebol i hawlio'r iawndal sy'n ddyledus iddynt. Mae hon yn garreg filltir bwysig i sicrhau bod pobl a oedd yn methu cael eu digolledu yn y gorffennol nawr yn gallu gwneud hynny. Ein bwriad yw y bydd y Cynllun yn dechrau cymryd ceisiadau ym mis Ebrill 2014.

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi ystyried ymatebion i'w cynigion ymgynghori eraill yn ofalus. Yng ngoleuni tystiolaeth o'r ymgynghoriad, gan gynnwys safbwyntiau grwpiau dioddefwyr, rydym wedi gwrthod y cynnig i fwrw ymlaen â Phrotocol Cyn Gweithredu Mesothelioma pwrpasol yn seiliedig ar drefn costau adenilladwy penodol a Phorth Hawliadau Mesothelioma Diogel electronig fel y maent yn sefyll ar hyn o bryd. Ein casgliad oedd nad oes achos digon cryf i ddweud y byddant yn bodloni nod datganedig y Llywodraeth o sicrhau bod hawliadau iawndal mesothelioma'n cael eu setlo'n gyflym, lle bo angen, ac yn deg i ddioddefwyr a'u dibynyddion. Cynigiodd Cymdeithas Yswiriant Prydain gynnal ac ariannu'r Porth Diogel hwn, ac efallai yr hoffent ystyried y mater ymhellach.

Diwygio hawliadau mesothelioma: Ymateb y Llywodraeth i ymgynghoriad am gynigion i gyflymu'r broses o setlo hawliadau mesothelioma yng Nghymru a Lloegr

Yn y Datganiad ar 4 Rhagfyr 2013, dywedodd Shailesh Vara y byddai'r Llywodraeth yn cyhoeddi eu hymateb i'r ymgynghoriad, ac mae adran 48 Deddf LASPO yn cynnwys gofyniad bod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi. Wrth gyhoeddi'r adroddiad fel rhan o'r ymateb hwn, rydym yn bodloni'r ymrwymiad hwnnw.

Bydd y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn parhau i weithio gyda phartion â diddordeb i archwilio diwygiadau gwerthfawr posibl i hawliadau mesothelioma a awgrymwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, yn ogystal â ffyrdd newydd o wella'r broses o hawlio iawndal.



Yr Arglwydd Faulks CF

Gweinidog Gwladol Cyfiawnder Sifil a Pholisi Cyfreithiol

1. Cyflwyniad

1. Cyhoeddwyd y papur ymgynghori 'Diwygio hawliadau mesothelioma' gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar 24 Gorffennaf 2013.
2. Bwriad y mesurau yn yr ymgynghoriad oedd gwella effeithlonrwydd y broses hawliadau a, lle bo angen, ei chyflymu fel bod dioddefwyr y clefyd anghueuol hwn a'u dibynyddion yn cael yr iawndal y maent yn ei haeddu.
3. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys:
 - Creu protocol cyn gweithredu pwrpasol (MPAP) i setlo hawliadau mesothelioma lle gellir dod o hyd i gyflogwr neu yswiriwr atebol.
 - Cyflwyno Costau Adenilladwy Sefydlog (FRC) ar gyfer rhai hawliadau mesothelioma penodol i gyfyngu ar y costau cyfreithiol a achosir ar ran hawlwr a darparu tryloywder a sicrwydd yn eu cylch;
 - Cynllun y diwydiant yswiriant i sefydlu Porth Hawliadau Mesothelioma Diogel (SMCG) electronig i gynorthwyo prosesau casglu gwybodaeth a rheoli ym mhob hawliad mesothelioma.
 - Adolygu effaith debygol defnyddio diwygiadau'r trefniant ffioedd amodol (CFA) ar hawliadau mesothelioma dan adrannau 44 a 46 Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwr (LASPO) 2012. Mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno diwygiadau, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2013, i'r system 'dim ennill dim ffi' ar gyfer achosion anafiadau personol, ond mae hawliadau mesothelioma wedi'u heithrio o'r diwygiadau hyn nes i'r mater gael ei adolygu'n unol ag adran 48 y Ddeddf honno.
4. Daeth cyfnod yr ymgynghoriad i ben ar 2 Hydref 2013. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r ymatebion ac yn amlinellu penderfyniadau'r Llywodraeth am y ffordd ymlaen.
5. Mae crynodeb Cymraeg i'w gael yn <https://consult.justice.gov.uk/>
6. Mae Atodiad A yn rhoi rhestr o'r atebwyr.

2. Crynodeb o'r ymatebion

7. Cafwyd cyfanswm o 105 o ymatebion i'r papur ymgynghori. O'r rhain, cafwyd 62 o ymatebion (59%) gan gyfreithwyr hawlwr. Dychwelwyd yr ail nifer mwyaf gan yswirwyr a chyfreithwyr diffynyddion (9% yr un), ac yna 7% gan grwpiau cymorth i ddioddefwyr ac elusennau.
8. Dyma ddadansoddiad llawn o'r grwpiau rhanddeiliaid a ymatebodd:

Grŵp	Nifer	Canran ¹
Cyfreithwyr Hawlwyr	62	59%
Cyfreithwyr Diffynyddion	9	9%
Diwydiant Yswiriant	9	9%
Y Farnwriaeth	4	4%
Aelodau'r Cyhoedd	3	3%
Y Proffesiwn Meddygol	2	2%
Undebau Llafur	4	4%
Grwpiau cymorth i ddioddefwyr/Elusennau	7	7%
Arall	5	5%

9. Mae'r Llywodraeth yn falch bod cynrychiolwyr o bob ochr i'r ddadl – gan gynnwys Grwpiau Cymorth i Ddioddefwyr Asbestos, yr Uwch Feistr Whitaker, y Cyngor Cyfiawnder Sifil, Cymdeithas Yswirwyr Prydain, Cymdeithas y Cyfreithwyr Anafiadau Personol, a'r proffesiwn meddygol – wedi ymateb i'r ymgynghoriad a rhoi cyngor arbenigol ynglŷn â sut i wella'r broses hawliadau ar gyfer mesothelioma.
10. Nid oedd pob ymateb yn dewis ateb pob cwestiwn, a dewisodd rhai atebwyr gyflwyno eu hymateb ar ffurf llythyr neu e-bost estynedig heb ateb yr holl gwestiynau'n uniongyrchol o reidrwydd. Yn yr achosion hynny lle mae'n amlwg bod y rhain yn cyfeirio at gwestiynau penodol yn y papur ymgynghori, cawsant eu trin fel atebion i'r cwestiynau at ddibenion y dadansoddiad.

¹ Mae'r canrannau wedi'u talgrynnu

3. Gwneud penderfyniadau cyflym am hawliadau mesothelioma

Y broses cyn cyfreitha bresennol

Cwestiwn 1: Beth yn eich barn chi yw manteision ac anfanteision y DPAP presennol ar gyfer gwneud penderfyniadau cyflym a theg am hawliadau mesothelioma?

11. Roedd amrywiaeth o atebwyr yn credu bod y broses cyn cyfreitha bresennol ar gyfer hawliadau mesothelioma'n gweithio'n rhesymol dda, ond y gellid gwella rhai meysydd o hyd er mwyn gwneud penderfyniadau cyflym a theg am hawliadau mesothelioma. Rhoddodd llawer o atebwyr eu hasesiadau o nifer o fanteision ac anfanteision y Protocol Cyn Gweithredu ar gyfer Clefydau a Salwch Arall (DPAP) presennol.

12. Y prif fanteision a nodwyd oedd bod y DPAP:

- Yn rhoi disgwyliad o frys yn benodol ar gyfer hawliadau mesothelioma o'u cymharu ag achosion clefydau eraill.
- Yn amlinellu arfer da o ran y broses cyn cyfreitha ar gyfer achosion mesothelioma.
- Yn darparu ar gyfer hysbysu'n gynnar am hawliadau.
- Yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd:
 - Gall achosion brys (e.e. hawliadau mesothelioma gan rywun byw) adael y DPAP a chychwyn achos llys.
 - Gall cyfreithwyr hawlwr ddatgelu tystiolaeth i'r diffynnyddion wrth iddynt ei chael, gan sicrhau llif gwybodaeth parhaus rhwng cyfreithwyr y diffynnydd a'r hawlydd.
- Yn gweithredu'n effeithiol ar y cyd â gweithdrefn 'dangos achos' y Llysoedd Barn Brenhinol, sy'n ffordd gyffredinol effeithlon yn nhyb atebwyr o wneud penderfyniadau am hawliadau sy'n destun cyfreitha.

13. Ystyriwyd mai prif anfanteision y DPAP oedd:

- Mae amserlen y broses a'r amserlen datgelu gwybodaeth yn rhy hirfaith.
- Nid oes cymhellion i gydymffurfio na chosbau am ymddygiad gwael – ar hyn o bryd, yr unig sbardun sydd ar gael yw bygwth achos llys.
- Nid oes digon o sbardunau i annog cyfaddefiad cynnar o atebolrwydd, sydd ei angen er mwyn setlo'r hawliad yn gynharach.
- Nid yw'n helpu i sicrhau taliadau interim cyflym. Ystyrir bod hyn yn arbennig o bwysig i'r hawlydd; efallai y bydd ganddo/ganddi anghenion ariannol brys neu y bydd arno/arni angen gofal arbennig wrth i'w (h)iechyd ddirywio.
- Nid yw'n gallu cyd-fynd â dulliau "talu a chael eu talu" Yswirwyr, lle bydd un iawndalwr yn talu iawndal yr hawlydd ac yna, mewn achosion perthnasol, yn ceisio adennill cyfraniad teg gan yswirwyr eraill.

4. Protocol Cyn Gweithredu Mesothelioma

Cwestiwn 2: I ba raddau yr ydych yn meddwl y byddai MPAP pwrpasol newydd yn datrys y problemau ac yn bodloni'r amcanion a nodir uchod?

Cwestiwn 3: Beth yw eich barn fanwl am MPAP arfaethedig Cymdeithas Yswirwyr Prydain? Pa faterion pellach y gallai eu hunioni? A ydych yn meddwl mai'r meini prawf ar gyfer defnyddio'r MPAP yw'r rhai priodol? Os nad ydych, pa feini prawf y byddech yn eu hawgrymu a pham? Dan ba amgylchiadau, os oes rhai o gwbl, ddylai achos ddisgyn allan o'r MPAP?

Cwestiwn 4: I ba raddau yr ydych yn meddwl y bydd yr MPAP arfaethedig yn gostwng costau cyfreithiol mewn hawliadau mesothelioma?

14. Mae dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos nad oedd 75% o'r atebwyr – cyfreithwyr hawlwr a grwpiau dioddefwyr gan fwyaf – o blaid Protocol Cyn Gweithredu Mesothelioma (MPAP) arfaethedig Cymdeithas Yswirwyr Prydain (ABI) fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd. Dywedodd llawer y byddai mewn gwirionedd yn achosi mwy o oedi ac yn atal dioddefwyr mesothelioma a'u dibynyddion rhag cael cyfiawnder. Roedd cyfreithwyr hawlwr, grwpiau cymorth i ddiodefwyr a'r proffesiwn meddygol i gyd yn credu bod yr MPAP arfaethedig yn rhy hirfeddiannol. Roeddent yn teimlo ei fod yn rhoi gormod o ymrwymiad i'r hawlydd ddarparu gwybodaeth ymlaen llaw, fel "bwndel treial", ac nad oedd yr MPAP yn mynnu bod y diffynyddion yn bwrw ymlaen â'r hawliad ar yr un pryd. Roedd rhai'n credu bod rhywfaint o'r wybodaeth i'w darparu ymlaen llaw'n ddiangen i ymchwilio i atebolrwydd, ac yn ei chael yn anodd deall pam yr oedd gofyn amdani.
15. Teimlwyd bod y baich hwn yn cael ei waethygu gan y broses o gael tystiolaeth mewn cysylltiad â hawliad mesothelioma, sy'n gallu bod yn gymhleth ac yn anodd, er enghraifft oherwydd yr amser sylweddol sy'n mynd heibio rhwng dod i gysylltiad â'r clefyd a'r diagnosis, a'r problemau o ran canfod a ddaethpwyd i gysylltiad â digon o lwch asbestos i fod yn gyfystyr â thor dyletswydd yn ôl safonau'r cyfnod.
16. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl a oedd yn anghytuno â'r MPAP arfaethedig hwn yn credu, er nad oedd y DPAP presennol yn berffaith, ei fod yn fwy addas i ymdrin ag achosion mesothelioma gan ei fod yn rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen. (Gweler manteision Cwestiwn Un)
17. Roedd ymatebion gan gyfreithwyr hawlwr, yn enwedig, yn dadlau'n gryf bod y MPAP yn ffafriol i fuddiannau yswirwyr ac nad oedd yn rhoi cymhelliant i annog diffynyddion i ystyried a chyfaddef atebolrwydd yn gynnar a negodi o ddifrif am gwantwm; roeddent yn ystyried bod hynny'n hanfodol i setlo achosion yn gynnar heb fod ag angen cyfreitha. Er enghraifft, roedd rhai'n dadlau y gallai diffynyddion ohirio achosion llys posibl drwy wrthod llythyrau hawliadau ar sail diffyg cydymffuriad, ac y gallai ymrwymladau hawlwr i ddatgelu roi mantais dactegol sylweddol i ddiffynyddion lle ceir anghydfod am atebolrwydd. Mynegwyd pryderon hefyd am nad oedd yr MPAP arfaethedig yn ystyried realiti ymarferol cyfreitha achosion mesothelioma. Mae disgwyliad oes byr y dioddefwr, a datblygiad anrhagweladwy a chyflym y clefyd, yn golygu bod angen rhoi hyblygrwydd i gyfreithiwr hawlydd i ymateb yn gyflym yn y cyfnod cyn cyfreitha. Dywedodd Cyfreithwyr Leigh Day yn eu hymateb, "byddai'r camau gorfodol yn y MPAP yn cymryd llawer o'r amser byr sydd gan yr hawlwr hyn ar ôl."

18. Roedd llawer o atebwyr yn meddwl bod amserlenni'r MPAP ar gyfer datgelu gwybodaeth yn afrealistig – er enghraifft, y cais i gael yr holl dystiolaeth i brofi'r cysylltiad ag asbestos i ategu'r llythyr hawlio o fewn 2 fis, oherwydd gall gymryd cymaint â hyn o amser i gael cofnodion meddygol ac amserlen cyflogaeth Cyllid a Thollau EM yn unig. Dywedodd grwpiau hawlwr a dioddefwyr nad oedd amserlenni'r MPAP yn rhoi ystyriaeth effeithiol i'r broses anodd a hirfaith o ddrafftio'r datganiad tyst. Ychwanegodd Leigh Day “weithiau bydd yr hawllydd yn adnabod tystion posibl... ond mor aml â pheidio, ni fydd, a bydd angen dilyn trywyddion eraill megis grwpiau cymorth asbestos lleol neu hysbysebion yn y wasg leol”.
19. Roedd y rhan fwyaf o'r rheini a oedd yn cytuno â chyflwyno'r MPAP yn ystyried ei fod yn well na'r DPAP presennol, ac roeddent yn pwysleisio sut y byddai'n diwallu anghenion dioddefwyr mesothelioma. Roedd Cyfreithwyr Keoghs yn credu y byddai'r diwygiadau arfaethedig yn hybu proses gyflymach, “gan annog pob parti i gyrraedd y safonau ymarfer gorau presennol”. Roedd y bobl o'i blaid yn credu ei fod yn pennu amserlenni cyraeddadwy i'r naill ochr a'r llall ac yn rhoi mecanwaith ar gyfer datgelu tystiolaeth yn gynnar. Dywedodd Cymdeithas Yswirwyr Prydain mai'r unig eithriad ar gyfer y wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen i hysbysu am hawliad dan y MPAP oedd ar gyfer y datganiad tyst. Hefyd, dywedodd y rheini a oedd o blaid y MPAP ei fod yn darparu'n glir ar gyfer taliadau interim cynnar i dioddefwyr, sef mantais nad yw'r DPAP presennol yn ei chydnabod yn benodol.
20. Dywedodd Cymdeithas Yswirwyr Prydain y byddai protocol cyn gweithredu sy'n effeithiol ac wedi'i deilwra'n golygu y byddai llai o achosion yn destun cyfreitha. Dywedodd Cyfreithwyr Keoghs y gallai proses cyn-cyfreitha effeithiol, lle byddai'r naill ochr a'r llall yn darparu'r dystiolaeth ofynnol, arbed amser a lleihau costau i bob parti; roeddent yn teimlo ei bod yn amhriodol mai cyfreitha yw'r dewis diodyn ar gyfer pob hawliad mesothelioma. Pwysleisiodd Cymdeithas Yswirwyr Prydain hefyd fod y MPAP yn cyd-fynd yn well â'r Cyfarwyddyd Ymarfer Mesothelioma ac y gellid cychwyn achos llys ar unrhyw bryd yn ystod yr MPAP mewn achosion brys, gan gadw hyblygrwydd y DPAP.
21. Dywedodd 75% o'r atebwyr fod y meini prawf ar gyfer dechrau defnyddio'r MPAP arfaethedig yn amhriodol. Awgrymodd rhai atebwyr nad oedd yr awgrym yn yr ymgynghoriad y byddai'r MPAP yn gweddu i achosion “*lle nad oes anghytundeb ynglŷn ag atebolrwydd*”² o gymorth, oherwydd ei bod bron yn ddieithriad yn amhosibl gwneud penderfyniad am atebolrwydd cyn anfon llythyr hawliad a datgelu tystiolaeth. Dywedodd Grŵp Cymorth i Ddioddefwyr Asbestos y DU hefyd fod natur achosion mesothelioma'n newid: yn aml, bydd y dioddefwyr mesothelioma a welant y dyddiau hyn wedi gweithio i nifer o gyflogwyr, sy'n aml yn gwmnïau bach, neu ni fyddant wedi dod i gysylltiad â llawer o asbestos ac roedd hynny'n eilaidd i'w prif alwedigaeth. Mae cymhlethdod achosion, a'r cwmpas a'r cyfle i wrthbrofi atebolrwydd, yn cynyddu, felly byddai'n anoddach eu datrys drwy MPAP hirfeddiannol arall.
22. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod nad oes ar bob hawllydd eisiau setlo hawliad yn gyflym. Maent yn cydnabod pwynt APIL ac eraill yn eu hymatebion y byddai'n well gan rai hawlwr ohirio setlo eu hawliadau tan ar ôl eu marwolaeth, oherwydd bydd penderfyniad terfynol yn ystod bywyd y dioddefwr yn aml yn rhoi setliad llawer rhy isel ar gyfer yr hawliad, ac yn golygu bod dibynyddion yn colli cyfran sylweddol o'r iawndal y gallent ddisgwyl ei gael fel arall mewn hawliad ar ôl y farwolaeth megis iawndal am brofedigaeth a chostau angladd. Gwnaethpwyd y pwynt mai, yn aml iawn, y sbardun allweddol ar gyfer gweithredu cyfreithiol effeithiol tra bo'r dioddefwr yn dal yn fyw yw'r angen i gasglu'r dystiolaeth y gall y dioddefwr ei darparu, a gwneud penderfyniad yn seiliedig ar *atebolrwydd* ac nid cwantwm o reidrwydd; ystyriwyd bod

² Para 31- Diwygio hawliadau mesothelioma. Ymgynghoriad am gynigion i gyflymu'r broses o setlo hawliadau mesothelioma yng Nghymru a Lloegr

hynny'n dangos na fyddai protocol cyn gweithredu mwy hirfeddiannol yn addas i hawliadau mesothelioma.

23. Nid oedd 65% o atebwyr yn meddwl y bydd yr MPAP arfaethedig yn gostwng costau cyfreithiol mewn achosion mesothelioma. Yn wir, dywedodd y rhan fwyaf o atebwyr y byddai'r MPAP arfaethedig, yn enwedig yr angen i hawlwr ddarparu gwybodaeth ychwanegol gyda'r llythyr hawliad (fel y nodwyd uchod), yn creu haenau ychwanegol o waith ac yn cynyddu oediadau yn y broses hawliadau gan arwain at gostau uwch – a gweithio yn erbyn bwriadau'r Llywodraeth wrth gynnig y diwygio hwn.
24. Y rhesymau a roddwyd gan y rheini a oedd yn meddwl y byddai'n lleihau costau cyfreithiol oedd y byddai defnyddio'r MPAP yn effeithiol yn lleihau nifer yr hawliadau sy'n destun cyfreitha, ac y byddai hyn yn gwneud y broses yn fwy effeithlon gan helpu i leihau costau cyfreithiol i hawlwr a diffynyddion. Hefyd, dylai'r cyfarwyddiadau cliriach i hawlwr a diffynyddion sydd yn y MPAP arfaethedig leihau ansicrwydd a gwaith diangen i hawlwr a diffynyddion. Cafwyd consensws ymysg amrywiaeth eang o atebwyr bod perthynas bositif rhwng y costau a delir a'r amser a gymerir i setlo hawliad mewn achosion mesothelioma.
25. Awgrymodd 15% o'r atebwyr fod cwmpas i leihau costau cyfreitha drwy gyfrwng rhyw fath o brotocol cyn gweithredu penodol ar gyfer mesothelioma; fodd bynnag, byddai angen trafodaeth bellach a mwy o fanylion am gwmpas y gosb, y pwyntiau gadael a chysylltiadau gwell â phroses y Llysoedd Barn Brenhinol i wneud penderfyniad doeth am fodel amgen.
26. Cafwyd rhywfaint o gonsensws y gallai protocol penodol ar gyfer mesothelioma, a fyddai i bob diben yn amlinellu arfer gorau, weithio pe bai pob parti perthnasol yn cymryd rhan yn y broses o'i negodi a phe câi ei ddatblygu o gwmpas gweithdrefnau'r DPAP presennol.
27. Fodd bynnag, dywedodd amryw o atebwyr na fyddai addasu'r DPAP na chyflwyno protocol cyn gweithredu penodol ar gyfer achosion mesothelioma yn unig yn datrys yr holl broblemau. Mae angen gwneud mwy o waith i ganfod beth sy'n achosi oediadau'n fwy cyffredinol. Er enghraifft, cytunodd yr holl atebwyr fod mynediad cyflymach at gofnodion cyflogaeth a meddygol/nodiadau meddygon teulu'n hollbwysig er mwyn gallu prosesu hawliadau'n gynt, ac y byddai hynny hefyd yn cynorthwyo i ganfod atebolrwydd.

Ymateb y Llywodraeth

28. **Mae'r Llywodraeth wedi dadansoddi'r ymatebion i'w cynnig am MPAP pwrpasol yn ofalus, ac maent wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen ag ef fel y mae ar hyn o bryd. Yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddarparwyd, nid yw'r Llywodraeth wedi'i hargyhoeddi y byddai'r MPAP arfaethedig yn bodloni'r nod datganedig o sicrhau bod hawliadau iawndal mesothelioma'n cael eu setlo'n gyflym, lle bo angen, ac yn deg.**
29. **Mae'r ymatebion yn dangos bod rhai o nodweddion hawliadau mesothelioma sy'n amlwg yn peri anawsterau penodol o ran canfod a chasglu tystiolaeth berthnasol, ac ymchwilio i'r ffeithiau ar y naill ochr a'r llall. Mae hyn yn benodol oherwydd yr amser sy'n mynd heibio rhwng dod i gysylltiad ag asbestos a chael diagnosis, a'r ffaith bod disgwyliad oes yr hawlydd yn rhoi cyfnod byr iawn i sefydlu'r amgylchiadau perthnasol a ffurfio penderfyniad ynglŷn ag atebolrwydd.**
30. **Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i weithio gydag arbenigwyr ar bob ochr i'r ddadl i geisio canfod beth y gellid ei wneud o fewn rheswm i wella'r materion hyn. Yng ngoleuni'r anawsterau hyn, nid yw'n ymddangos bod y MPAP yn rhoi sail ddigonol ar gyfer protocol cyn gweithredu penodol ar gyfer hawliadau mesothelioma.**

31. **Bydd y dystiolaeth a ddarparwyd fel ymateb i gwestiynau 2 i 4 uchod, ynghyd â nifer o syniadau ac awgrymiadau adeiladol eraill a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad, yn werthfawr i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wrth iddynt weithio gyda phartïon â diddordeb i archwilio diwygiadau gwerthfawr posibl i'r broses hawliadau mesothelioma ar ôl i'w hymateb i'r ymgynghoriad gael ei gyhoeddi.**

5. Porth Hawliadau Mesothelioma Diogel

- Cwestiwn 5:** I ba raddau yr ydych yn meddwl y bydd SMCG yn helpu i gyflawni amcan y Llywodraeth o sicrhau bod hawliadau'n cael eu setlo'n gyflym ac yn deg?
- Cwestiwn 6:** Sut y dylai'r SMCG weithio (os o gwbl) gyda'r MPAP a gweithdrefn gyffredinol achosion mesothelioma wedi'u holrhain, a pha nodweddion sydd eu hangen ar yr SMCG er mwyn ategu'r gweithdrefnau hynny'n effeithiol ac yn effeithlon?
- Cwestiwn 7:** Beth yw risgiau SMCG yn eich tyb chi, a pha fesurau diogelu allai fod eu hangen?
32. Wrth ddadansoddi'r ymatebion, gwelwyd rhaniad clir ar awgrym yr ymgynghoriad o sefydlu Porth Hawliadau Mesothelioma Diogel (SMCG) ar-lein wedi'i gynnal a'i ariannu gan Gymdeithas Yswirwyr Prydain. Roedd yswirwyr a chyfreithwyr diffynyddion yn croesawu'r cynnig, ond nid oedd grwpiau cymorth i ddiodefwyr na chyfreithwyr hawlwr o blaid y syniad fel y'i hamlinellwyd yn y papur ymgynghori.
33. Roedd yswirwyr a chyfreithwyr diffynyddion o blaid yr SMCG yn gweithredu fel man gwybodaeth canolog i bob hawliad mesothelioma (wedi'i olrhain a heb ei olrhain), ac yn dweud y câi ei ddefnyddio i gynorthwyo'r MPAP i gynyddu effeithlonrwydd proses hawliadau mesothelioma. Dywedodd Cymdeithas Marchnad Lloyds, er enghraifft, y byddai'n "helpu i hwyluso amserlenni'r MPAP ac yn helpu i gyflawni'r amcan o setlo hawliadau'n gyflymach ac yn decach", ac roedd Cyfreithwyr Keoghs yn credu y byddai SMCG wedi'i sefydlu a'i gynnal yn briodol yn helpu i gyfnewid gwybodaeth hanfodol yn gyflym ac yn ddiogel.
34. Roedd grwpiau cymorth i ddiodefwyr a chyfreithwyr hawlwr yn gwrthwynebu'r SMCG oherwydd ar ei wyneb roeddent yn ystyried y byddai'n cymryd amser, yn gostus ac yn golygu dyblygu gwaith, gan weithio yn erbyn yr amcan o gyflymu'r broses cyn cyfreitha lle bo angen. Roeddent yn dweud y byddai'r SMCG yn darparu haen ychwanegol o weinyddiaeth a biwrocratiaeth. Ar y cyfan, nid oeddent yn meddwl bod yr achos o blaid yr SMCG, a'i fuddion i hawlwr, wedi'i gyflwyno.
35. Dywedodd yswirwyr a chyfreithwyr diffynyddion y byddai'r SMCG ar gyfer hawliadau mesothelioma'n gyson â dyfeisiau newydd tebyg mewn meysydd eraill cysylltiedig â hawliadau anafiadau personol, ac y gallai helpu i fonitro tueddiadau a gwneud rhagfynegiadau i'r dyfodol. Roedd y farnwriaeth a gweithwyr meddygol proffesiynol yn pryderu bod llwytho data personol sensitif i fyny a'i reoli ar y porth electronig yn codi materion yn ymwneud â moeseg a diogelu data y byddai angen bod yn ofalus â hwy.
36. Roedd materion cyfrinachedd ac anhawster llwytho gwybodaeth i fyny, yn enwedig cofnodion meddygol, yn faterion allweddol i'r mwyafrif llethol o randdeiliaid, yn enwedig rhai o'r proffesiwn meddygol. Dywedodd Dr Robin Rudd (Ymchwil Mesothelioma Barts) fod trefnu cofnodion meddygol yn beth eithriadol o anodd ei wneud yn electronig ac y byddai gweld sganiau CT "yn gymhleth ac yn cymryd llawer o amser, os nad yn amhosibl".
37. Cydnabu yswirwyr a chyfreithwyr diffynyddion y pryderon hyn, gan gytuno y byddai'n rhaid i unrhyw SMCG gydymffurfio â Diogelu Data ac mai dim ond partion perthnasol i hawliad ddylai gael mynediad ato. Rhaid cael rheolwyr/cyflenwyr data diogel a system gofrestru ar gyfer iawndalwyr a hawlwr. Rhoddodd rhai yswirwyr awgrymiadau am sut y gallai'r SMCG

weithredu. Er enghraifft, cynigiodd Direct Line Group system gofrestru ar gyfer iawndalwyr a hawlwyr, yn debyg i'r un a ddefnyddir gan Portal Co ar gyfer Damweiniau Traffig Ffyrdd â gwerth isel a hawliadau atebolrwydd cyflogwyr a chyhoeddus.

38. Dywedodd nifer o atebwyr nad oeddent yn gwrthwynebu'r SMCG yn llwyr, ond y byddai arnynt angen mwy o wybodaeth am sut y byddai'n gweithio ac am ei berchnogaeth. Pe câi'r SMCG ei ddefnyddio, byddai angen iddo fod yn dryloyw ac yn fenter ar y cyd rhwng hawlwyr a diffynyddion/yswirwyr.

Ymateb y Llywodraeth

39. **Diben datganedig y Porth Hawliadau Mesothelioma Diogel oedd ategu'r Protocol Cyn Gweithredu Mesothelioma arfaethedig. Gan fod y Llywodraeth wedi gwrthod symud ymlaen â'r MPAP yn seiliedig ar drefn costau adenilladwy penodol, nid oes amheuaeth y bydd ar Gymdeithas Yswirwyr Prydain eisiau ystyried a fyddent yn dymuno bwrw ymlaen â'u cynnig i ariannu a chynnal SMCG, sut y byddent yn gwneud hynny, a sut y gallai hawlwyr a diffynyddion ei ddefnyddio'n wirfoddol.**

6. System gostau fwy effeithlon

Trefn costau sefydlog

- Cwestiwn 8:** A ydych yn cytuno y dylid cyflwyno trefn costau adenilladwy sefydlog i ategu MPAP pwrpasol? Os felly, a ddylai hyn fod yn bennaf berthnasol i gostau hawlwr? A ddylai fod unrhyw fesurau'n berthnasol hefyd i gostau diffynyddion? Os felly, ar ba ffurf y gallent fod?
- Cwestiwn 9:** Pa gynllun yr ydych o'i blaid ar gyfer strwythur costau adenilladwy sefydlog? Eglurwch eich ateb.
- Cwestiwn 10:** Beth yw'r sbardunau allweddol i gostau cyfreithiol sefydlog a newidiol, a pha mor gryf yw'r sbardunau hyn?
- Cwestiwn 11:** A oes gennych unrhyw farn am lefel ddymunol y costau adenilladwy sefydlog ar gyfer eich hoff gynllun? Eglurwch eich ateb.
- Cwestiwn 12:** A ydych yn cytuno mai dim ond ar gyfer achosion y mae'r MPAP yn berthnasol iddynt y dylid defnyddio'r drefn costau adenilladwy sefydlog?
40. Roedd 70% o'r ymatebion, yn amlycaf gan gyfreithwyr hawlwr a grwpiau cymorth i ddiodefwr, yn erbyn cyflwyno costau adenilladwy sefydlog (FRC) ar gyfer hawliadau mesothelioma. Roedd 22% o blaid, a'r rhan fwyaf o gyfreithwyr diffynyddion ac yswirwyr o blaid FRC.
41. Roedd y brif ddadl a godwyd yn erbyn FRC ar gyfer hawliadau mesothelioma'n canolbwyntio ar y gred bod achosion o'r fath yn wahanol iawn eu natur i'r hawliadau anafiadau personol hynny lle mae FRC eisoes yn bodoli, yn enwedig achosion moduro gwerth is (£25,000), atebolrwydd cyflogwyr ac atebolrwydd cyhoeddus. Yn wahanol i hawliadau anafiadau personol eraill o'r fath, ystyriwyd nad oes llawer o hawliadau mesothelioma, ac nad ydynt yn hawliadau syml. Nododd APIL, er enghraifft, er bod achosion mesothelioma'n debyg i'r fath raddau eu bod i gyd yn cynnwys yr un elfennau o ran prawf o atebolrwydd ac achosiant, "nid yw ffioedd sefydlog yn addas i achosion o glefyd cymhleth, lle ceir amrywiaeth enfawr o ran costau yn y categori hawliadau perthnasol." Dywedodd llawer o atebwyr nad oedd achosion mesothelioma'n syml, gan gyfeirio at yr amrywiad mawr sy'n bosibl o ran yr ymchwilio a'r gwaith cyfreithiol sydd ei angen i setlo achosion mesothelioma at safonau proffesiynol. Yng ngoleuni hyn, roeddent yn teimlo y byddai'n anodd iawn defnyddio FRC yn deg ac yn gywir gyda hawliadau mesothelioma.
42. Dywedodd ymateb Sefydliad June Hancock "caiff costau eu hasesu gan farnwyr costau, a'u gwaith hwy yw sicrhau na ddyfernir costau am unrhyw waith y tu hwnt i'r gwaith sy'n angenrheidiol mewn achos." Cytunodd nifer o atebwyr â'r datganiad hwn, gan ddadlau mai dim ond llond llaw o achosion yr oeddent wedi'u gweld lle'r aseswyd bod y costau'n annerbyniol o uchel. Dywedodd yr Uwch Feistr Whitaker "nid oes canfyddiad cyffredinol bod costau cyfreithwyr hawlwr am wireddu'r hawliadau hyn yn rhy uchel".
43. Un pryder arall, a godwyd yn benodol gan Grwpiau Cymorth i Ddiodefwr, oedd y gallai'r gwahaniaeth sylweddol rhwng FRC a chostau cyfreithiol gwirioneddol mewn llawer o achosion achosi i gyfreithwyr profiadol wrthod cymryd achosion mwy cymhleth, neu wneud llai o waith nag a fyddai ei angen i gyflawni setliad teg mewn achosion o'r fath. Ar y llaw arall,

efallai y câi cyfreithwyr llai profiadol eu hannog i gymryd achosion lle gallai'r costau cyfreithiol gwirioneddol fod yn is na'r FRC, gan ei weld fel cyfle i gael sicrwydd o daliad am waith cyflym "yn arwain at benderfyniadau gwael, derbyn cynigion yn gynnar, a diffyg dealltwriaeth o gymhlethdod achosion."³

44. Awgrymodd rhai cyfreithwyr hawlwr fod costau'n un o'r cymhellion allweddol i annog neu gymell diffynnyddion i dalu iawndal ar delerau rhesymol, ac roeddent yn ofni y byddai trefn FRC yn negyddu unrhyw gymhelliant i ddiffynnydd i setlo'n gyflym.
45. Roedd yswirwyr a chyfreithwyr diffynnyddion yn cymeradwyo trefn FRC gan y byddai'n sicrhau mwy o ragweladwyedd ar gyfer costau i hawlwr yn ogystal ag i gwmnïau cyfraith hawlwr, eu cyflogwyr a'u hyswirwyr. Byddai'n rhoi sicrwydd, beth bynnag fyddai canlyniad yr hawliad, y byddai'r costau cyfreithiol yn gymesur i'r hawlydd neu'r diffynnydd. Cyfeiriodd cyfreithwyr diffynnyddion at y trefniant FRC Mesothelioma yn yr Alban fel model arfer da, gan ddadlau nad oedd rheswm pam na ellid cyflwyno cynllun tebyg yng Nghymru a Lloegr.
46. Dynododd nifer o atebwyr y gallai wneud synnwyr cyflwyno FRC ar gyfer achosion mesothelioma sy'n cael eu setlo o fewn yr MPAP arfaethedig, gan y byddai'r MPAP yn lleihau costau cyfreithwyr hawlwr, a dylai unrhyw strwythur costau cysylltiedig â MPAP gymell cynrychiolwyr hawlwr i gydymffurfio â'r protocol a helpu i ddatrys hawliadau'n gyflym. Roedd amryw o atebwyr yn agored i'r syniad o sefydlogi costau adenilladwy i ddiffynnyddion. Awgrymodd cyfreithwyr Keoghs fod eu cyfarwyddiadau i yswirwyr eisoes yn destun ffi sefydlog.
47. Roedd 65% o atebwyr yn anghytuno â phob strwythur FRC a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad hawliadau mesothelioma. Roedd 9% o blaid creu un ffi safonol, gan nodi y byddai hynny'n syml a dadlau nad oedd llawer o gydberthyniad rhwng costau cyfreithiol a gwerth hawliad. Roedd 9% o blaid ffioedd safonol ar wahân i wahanol gyfnodau'r MPAP, gan nodi y byddai ei hyblygrwydd yn ystyried amgylchiadau penodol achosion. Roedd 3% o blaid nifer o ffioedd sefydlog neu ffioedd amrywiol, gan ddweud bod natur achosion mesothelioma'n cyfiawnhau mabwysiadu ymagwedd fwy amrywiol at FRC.
48. Dywedodd atebwyr mai anghydfod ynglŷn ag atebolrwydd (naill ai rhwng cyfreithwyr hawlwr a diffynnyddion neu rhwng diffynnyddion) oedd sbardun allweddol costau cyfreithiol mewn achosion mesothelioma. Y sbardun nesaf oedd cymhlethdod yr achos, a'r amser y mae'n ei gymryd o ganlyniad i hynny i gwblhau'r gwaith ymchwilio sydd ei angen. Cafwyd consensws ynglŷn â pherthynas bositif rhwng yr amser a gymerir i setlo hawliad mewn achosion mesothelioma a'r costau a delir.
49. Ychydig iawn o atebwyr a atebodd y cwestiwn am beth ddylai lefel FRC fod a pham. Roedd rhai'n teimlo nad oedd ganddynt yr arbenigedd neu'r data i ateb y cwestiwn hwn. Dim ond 13 (12%) o'r atebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, ac roedd y lefelau FRC a awgrymwyd yn amrywio o £6,500 i £15,000.
50. Roedd y rhan fwyaf o'r atebwyr yn gyffredinol o blaid defnyddio unrhyw drefn FRC ar gyfer achosion MPAP yn unig; fodd bynnag, yr unig reswm yr oedd 52% o blaid hyn oedd er mwyn cyfyngu ar led y drefn FRC. Roedd 8% o atebwyr o blaid y drefn FRC ac o blaid ei defnyddio mewn achosion MPAP yn unig. Roedd 14% o'r ymatebion o blaid defnyddio trefn FRC ym mhob achos mesothelioma.

³ Anthony Whitston, Cadeirydd Fforwm Grwpiau Cymorth i Ddiodeffwyr Asbestos y DU, Ymateb Fforwm Grwpiau Cymorth i Ddiodeffwyr Asbestos y DU i'r ymgynghoriad Diwygio Hawliadau Mesothelioma

Cwestiwn 13: I ba raddau ydych chi'n meddwl bod y diwygiadau'n berthnasol i fusnesau bach a microfusnesau?

Cwestiwn 14: I ba raddau ydych chi'n meddwl y gallai'r diwygiadau gynhyrchu effeithiau gwahaniaethol (buddion a chostau) i fusnesau bach a microfusnesau? Sut y gellid lliniaru unrhyw gostau gwahaniaethol?

51. Roedd yr Asesiad o Effaith a oedd yn cyd-fynd â'r papur ymgynghori'n cynnwys asesiad cychwynnol o effaith wahaniaethol bosibl y cynigion ar fusnesau bach (hyd at 49 o gyflogeion) a microfusnesau (hyd at 10 o gyflogeion).
52. Nid atebodd llawer o'r atebwyr gwestiynau 13 a 14 uchod; cyfreithwyr hawlwr a diffynyddion oedd y rhan fwyaf o'r rhai a wnaeth ac roeddent yn cytuno y byddai'r diwygiadau'n berthnasol i fusnesau bach a microfusnesau sy'n ymdrin ag achosion mesothelioma.
53. Roedd rhai cyfreithwyr hawlwr yn ofni y byddai'r MPAP a'r FRC arfaethedig yn annog darparwyr cyfreithiol llai, dibrofiad i ddechrau gweithio ym maes hawliadau mesothelioma. Byddai gan ymarferwyr dibrofiad gymhelliant ariannol i gadw hawliad o fewn y MPAP a chaniatáu i hawlwr dderbyn cynigion isel yn hytrach na herio diffynnydd drwy broses y llys oherwydd eu diffyg profiad, a/neu gan y byddai'n llai proffidiol gwneud hynny. Ar y llaw arall, awgrymodd Cymdeithas Yswirwyr Prydain a llawer o gyfreithwyr diffynyddion y byddai'r broses gyflymach a chliriach a bennir gan y MPAP a'r Porth Diogel o fudd i fusnesau llai gan y byddai'n haws iddynt ddefnyddio'r broses hawliadau. Hefyd, byddai'r costau cyfreithiol is a gyflwynir gan FRC yn cyfrannu at gostau atebolrwydd cyflogwyr, gan ostwng premiymau i bob busnes dan sylw, ond byddai'r fantais yn gyfraneddol fwy i gwmnïau llai.

Ymateb y Llywodraeth

54. **Barn dros dro'r Llywodraeth wrth ymgynghori am y mater hwn oedd y byddai'n rhesymol ac yn gymesur cyflwyno strwythur Costau Adenilladwy Sefydlog (FRC) ar gyfer hawliadau mesothelioma sy'n mynd i mewn i'r MPAP, yn seiliedig ar yr egwyddorion y dylai FRC wneud y canlynol:**
- **Ategu'r nod o gyflymu'r broses o setlo hawliadau mesothelioma**
 - **Bod yn bennaf addas i hawliadau sy'n destun y MPAP heb anghymell partïon rhag defnyddio'r MPAP**
 - **Bod wedi'u gosod ar lefel sy'n adlewyrchiad cywir o faint o waith cyfreithiol sydd ei angen i reoli hawliadau'n effeithlon; a**
 - **Pheidio â pheryglu siawns dioddefwyr a'u dibynyddion o gael cyfiawnder, a chaniatáu i waith cyfreithiol gael ei wneud at safonau proffesiynol.**
55. **Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus ac yn credu, yng ngoleuni'r dystiolaeth, nad oes achos wedi'i gyflwyno o blaid bwrw ymlaen, ar hyn o bryd, â'r FRC fel yr ymgynghorwyd amdanynt, yn enwedig heb fynd ar drywydd y MPAP.**
56. **Mae'r Llywodraeth o'r farn bod y gweithdrefnau presennol, megis cyllidebu ac asesu costau, yn cyfyngu'n effeithiol ar gostau cyfreithiol.**

7. Adolygiad dan adran 48 Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) 2012.

Cwestiwn 15: A ydych yn cytuno y dylid rhoi grym i adrannau 44 a 46 Deddf LASPO 2012 ar gyfer hawliadau mesothelioma, yng ngoleuni'r diwygiadau arfaethedig a ddisgrifiwyd yn yr ymgynghoriad hwn, y cynnydd mewn iawndal cyffredinol a diogelu costau, a'r Bil Mesothelioma?

Cyflwyniad

57. Mae rhan 4 y papur ymgynghori 'Diwygio Hawliadau Mesothelioma' a'r ymatebion iddo'n ffurfio rhan o adolygiad yr Arglwydd Ganghellor o effeithiau tebygol adrannau 44 a 46 Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) 2012⁴ ar hawliadau mesothelioma yn unol ag adran 48 y Ddeddf honno.
58. Yr adroddiad dan adran 48 yw'r rhan hon o'r ymateb, ac mae cyhoeddi'r ymateb hwn yn cyflawni'r gofyniad i gyhoeddi dan adran 48(1)(b).
59. Mae adolygiad yr Arglwydd Ganghellor yn cynnwys: (i) ystyriaeth gan yr Arglwydd Ganghellor cyn yr ymgynghoriad; (ii) yr ymgynghoriad; a (iii) ystyriaeth fewnol yr Arglwydd Ganghellor o'r ymatebion i'r ymgynghoriad (gweler adrannau 2 a 3 y Rhan hon). Ar ôl ystyried yr adolygiad, roedd rhaid i'r Arglwydd Ganghellor benderfynu, yng ngoleuni'r adolygiad, a oedd am roi'r diwygiadau LASPO ar waith ai peidio. Ystyrir hyn yn adran 5 y Rhan hon. Rhoddodd yr Arglwydd Ganghellor ystyriaeth arbennig, wrth benderfynu bwrw ymlaen, i unrhyw beth a fyddai'n gwneud hawliadau mesothelioma'n ddigon gwahanol i hawliadau eraill fel na ddylai fod y diwygiadau LASPO yn berthnasol i achosion mesothelioma hefyd.
60. Cyhoeddodd y Llywodraeth ganlyniad yr adolygiad dan adran 48 i'r Senedd ar 4 Rhagfyr 2013⁵. Eu cyhoeddiad oedd bod yr Arglwydd Ganghellor, ar ôl ystyried yr ymatebion yn ofalus, wedi dod i'r casgliad y dylai fod y diwygiadau LASPO yn berthnasol i achosion mesothelioma, fel ar gyfer pob achos anaf personol arall. Dywedodd y Llywodraeth nad oeddent yn credu 'bod achos wedi'i wneud o blaid parhau i drin achosion mesothelioma'n wahanol, yn enwedig o'u cymharu ag anafiadau personol eraill, sydd hefyd yn gallu achosi canlyniadau difrifol i'r dioddefwr'.
61. Cyhoeddodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (NIESR) ddata annibynnol ym mis Ionawr 2014 ynglŷn ag achosion mesothelioma⁶. Cyhoeddwyd data interim NIESR yn yr Asesiad o'r Effaith a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r papur ymgynghori ac a oedd ar gael i'r holl ymgynghoreion.

⁴ Er cyfleuster, cyfeirir at adrannau 44 a 46 Deddf LASPO 2012 fel 'y diwygiadau LASPO'.

⁵ Col 55-56WS

⁶ Adroddiad y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (NIESR) "Astudiaeth o Iawndal Sifil Cyfartalog mewn achosion Mesothelioma" (Ionawr 2014): <https://www.gov.uk/government/publications/study-into-average-civil-compensation-in-mesothelioma-cases-rr858>

Ymysg materion eraill, ystyriodd yr astudiaeth gostau cyfreithiol hawliadau mesothelioma. Dewiswyd sampl o oddeutu 3,500 o achosion o'r Uned Adennill Iawndal (CRU) i'w cynnwys yn yr arolwg hwn. Roedd yr achosion yn cynnwys hawliadau atebolrwydd cyflogwr a setlwyd yn y sector preifat a hawliadau y cofnodwyd eu bod wedi'u setlo rhwng 2007 a 2012.

62. Mae'r Llywodraeth yn credu ei bod o gymorth cyhoeddi dadansoddiad o gostau a buddion rhoi'r diwygiadau LASPO ar waith, ac mae'r dadansoddiad cost a budd hwnnw'n ystyried data adroddiad terfynol NIESR. Mae'r dadansoddiad cost a budd yn Atodiad B.
63. Mae'r Rhan hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion gan ymgynghoreion a'r dadleuon a gyflwynwyd ar y naill ochr a'r llall. Mae'n ystyried effaith debygol y diwygiadau LASPO ar hawliadau mesothelioma ymledol, ac yn archwilio'r prif newidiadau a gyflwynwyd gan y diwygiadau hyn cyn belled ag y mae achosion mesothelioma dan sylw: (1) nid yw ffioedd llwyddiant cytundebau ffioedd amodol (CFA) a (2) premiymau yswiriant ar ôl y digwyddiad (ATE) yn adenilladwy mwyach gan ddiffynyddion sy'n colli, (3) caiff iawndal cyffredinol ei gynyddu 10% a (4) defnyddir symud costau unffordd amodol (QOCS). Mae yna'n ystyried natur yr adolygiad adran 48, a pherthnasedd y Bil Mesothelioma, ac yn egluro penderfyniad y Llywodraeth i frwr ymlaen â'r diwygiadau LASPO.
64. Mae adran 48 yn darparu:
- (1) *Ni ellir dod ag adrannau 44 a 46 i rym ar gyfer achos llys sy'n ymwneud â hawliad am iawndal mewn cysylltiad â mesothelioma ymledol nes y bydd yr Arglwydd Ganghellor wedi-*
 - (a) *cynnal adolygiad o effaith debygol yr adrannau hynny ar achos llys o'r fath, a*
 - (b) *cyhoeddi adroddiad am gasgliadau'r adolygiad.*
 - (2) *Yn yr adran hon, mae gan "mesothelioma ymledol" yr un ystyr ag yn Neddf Clefyd y Llŵch ac ati (Iawndal Gweithwyr) 1979.*
65. Fel yr amlinellir yn y papur ymgynghori, roedd y diwygiadau LASPO yn bwrw ymlaen ag argymhellion yr Arglwydd Ustus Jackson i reoli costau cyfreitha sifil. Maent yn diddymu adenilladwyedd, yn ôl eu trefn, ffioedd llwyddiant CFA a phremiymau yswiriant ATE gan ddiffynyddion sy'n colli. Mae'r darpariaethau hyn wedi bod mewn grym ar gyfer pob achos llys anaf personol arall ers 1 Ebrill 2013.
66. CFA dim ennill-dim ffi yw'r brif ffordd o ariannu hawliadau anafiadau personol ers diwygiadau'r Llywodraeth ddiwethaf i gymorth cyfreithiol a CFA yn Neddf Mynediad at Gyfiawnder 1999, a diwygiadau'r Llywodraeth hon yn Rhannau 1 a 2 Deddf LASPO 2012⁷.
67. Nid yw'r cynllun LASPO, fel y'i deddfwyd gan y Senedd, yn eithrio hawliadau mesothelioma'n barhaol o'r diwygiadau LASPO. Yn lle hynny, ni chaiff yr adrannau hynny ddod i rym nes i'r Arglwydd Ganghellor gynnal yr adolygiad a chyhoeddi adroddiad. Cyn belled â bod hynny wedi'i wneud, mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer dod â'r diwygiadau i rym yn y ffordd arferol – drwy gyfrwng gorchymyn cychwyn dan adran 151.
68. I grynhoi, nid yw'r Llywodraeth wedi'i hargyhoeddi na ddylai fod darpariaethau LASPO yn berthnasol i achosion mesothelioma. Nid yw'n credu bod achos wedi'i wneud y byddai hawlwr mewn sefyllfa waeth yn gyffredinol, nac yn wir eu cyfreithwyr. Beth bynnag, gofyniad adran 48 yw bod rhaid i'r Arglwydd Ganghellor gynnal adolygiad o effaith debygol adrannau 44 a 46. Mae'r Llywodraeth yn fodlon bod yr adolygiad ei hun, fel y nodir ym mharagraff 64 uchod, cyn belled ag y caiff yr adroddiad ei gyhoeddi, yn cydymffurfio â gofynion adran 48.

⁷ Mae rhan 1 Deddf LASPO yn cynnwys darpariaethau'n ymwneud â chymorth cyfreithiol, ac mae Rhan 2 yn cynnwys darpariaethau'n ymwneud ag ariannu cyfreitha a chostau.

Ymatebion gan ymgynghoreion

69. Roedd y rhan fwyaf o'r atebwyr (69%) yn erbyn dod â'r diwygiadau LASPO i rym ar gyfer hawliadau mesothelioma am y rhesymau a roddir isod. Fodd bynnag, roedd rhai atebwyr o blaid (18%). Roedd rhaniad clir rhwng barn grwpiau cymorth i ddioddefwyr a chyfreithwyr hawlwr ar un ochr, ac yswirwyr a chyfreithwyr diffynydion ar yr ochr arall, am y cynnig hwn.

Dadleuon a wnaethpwyd yn erbyn dod ag adrannau 44 a 46 i rym ar gyfer hawliadau mesothelioma

70. Cyflwynwyd nifer o ddadleuon yn erbyn defnyddio'r diwygiadau LASPO; hawlwr a'u cynrychiolwyr a wnaeth y pwyntiau hyn yn bennaf. Gellir crynhoi'r dadleuon yn fras dan ddau bennawd: (i) byddai hawlwr mewn sefyllfa waeth pe câi'r diwygiadau LASPO eu rhoi ar waith ar gyfer achosion mesothelioma; a (ii) roedd dulliau'r Llywodraeth o asesu'r materion yn y maes hwn yn anghywir, yn benodol drwy gyfeirio at natur yr adolygiad adran 48, a pherthnasedd y Bil Mesothelioma⁸.

71. O ran (i), roedd yr atebwyr a oedd yn anghytuno â dod â'r diwygiadau hyn i rym yn pryderu y byddai hawlwr mesothelioma mewn sefyllfa waeth gan eu bod yn credu y byddai effaith gyfunol y ffaith na fyddai ffoedd llwyddiant CFA na phremiymau yswiriant ATE yn adenilladwy mwyach gan ddiffynydion sy'n colli'n drech na manteision cynnydd 10% mewn iawndal cyffredinol a defnyddio QOCS – bydd y ddau o'r rhain hefyd yn berthnasol i achosion mesothelioma os caiff y diwygiadau LASPO eu rhoi ar waith yn yr achosion hyn.

72. Dadleuodd rhai y byddai angen prynu yswiriant ATE beth bynnag (yn enwedig oherwydd risg Rhan 36), a bod y codiad iawndal arfaethedig yn 'rhithiol'. Mynegwyd pryderon am ariannu taliadau, ac y byddai'r diwygiadau LASPO yn anghymell pobl rhag cyfreitha ar ran y grŵp o hawlwr hwn sy'n aml yn oedrannus (ac o ganlyniad yn gwrthwynebu risg), fel y dadleuodd cyfreithwyr Irwin Mitchell.

73. Roedd rhai atebwyr hefyd yn dadlau na ddylai fod rhaid i ddioddefwyr mesothelioma boeni am gael y fargen orau o ran costau neu'r premiwm gorau. Dywedodd Cyfreithwyr Fentons y dylai dioddefwyr allu dewis y gwasanaeth gorau 'heb ystyried risgiau costau'.

74. Awgrymodd undeb llafur Unite na ddylid defnyddio'r diwygiadau LASPO ar gyfer hawliadau mesothelioma nes i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder gynnal adolygiad cyffredinol o'r diwygiadau dair i bum mlynedd ar ôl eu rhoi ar waith. Byddai hyn yna'n darparu 'prawf' i gymharu effeithiau LASPO ar achosion lle defnyddiwyd y diwygiadau hynny.

75. O ran (ii), roedd yr atebwyr a oedd yn anghytuno â gweithredu'r diwygiadau LASPO hefyd yn mynegi pryderon ynglŷn ag a oedd yr adolygiad yn bodloni gofynion adran 48, ac yn dweud nad oedd y Bil Mesothelioma – a oedd yn rhoi sylw i bobl nad oeddent yn gallu cyfreitha – yn berthnasol i'r adolygiad adran 48 a oedd yn ymwneud â'r effaith debygol ar achosion lle bu cyfreitha.

Dadleuon a wnaethpwyd o blaid dod ag adrannau 44 a 46 i rym ar gyfer hawliadau mesothelioma

76. Roedd yr atebwyr a oedd o blaid defnyddio'r diwygiadau LASPO ar gyfer achosion mesothelioma'n dadlau nad oedd cyfiawnhad egwyddorol dros beidio â gwneud hynny; cawsant eu hargymell gan yr Arglwydd Ustus Jackson ar gyfer pob achos, ac roeddent wedi'u defnyddio gyda phob math arall o hawliad anaf personol. Awgrymodd FOIL a DWF LLP nad

⁸ Nawr Deddf Mesothelioma 2014 c.1, ond cyfeirir ati yn y ddogfen hon fel y Bil Mesothelioma.

oes gan achosion mesothelioma unrhyw nodweddion penodol a fyddai'n golygu bod y diwygiadau LASPO yn cael effaith fwy arnynt nag ar fathau eraill o hawliadau anafiadau personol yr oedd y diwygiadau eisoes yn cael eu defnyddio gyda hwy.

77. Dadleuodd Cyfreithwyr DAC Beachcroft fod y risg o effaith anffafriol ar allu dioddefwyr mesothelioma a'u teuluoedd i gael cyfiawnder o ganlyniad i roi'r diwygiadau LASPO ar waith yn fach iawn: mae'r diwygiadau LASPO eisoes yn cael eu defnyddio gyda'r rhan fwyaf o achosion anafiadau personol, gan gynnwys hawliadau am anafiadau cymhleth, trychinebus a/neu angheuol, heb gael effaith amlwg ar gyfiawnder mewn achosion o'r fath. Gwnaethpwyd y pwynt bod parhau i eithrio hawlwyfwr mesothelioma o'r diwygiadau'n annheg i hawlwyfwr eraill mewn sefyllfa debyg fel arall.
78. Dywedodd atebwyr hefyd fod colli'r gallu i adennill ffioedd llwyddiant a phremiymau yswiriant ATE gan y diffynnydd wedi'i wrthbwyso'n ddigonol gan y newidiadau i atebolrwydd costau drwy symud costau unffordd amodol (QOCS), a'r cynnydd 10% i iawndal cyffredinol, gan sicrhau bod costau diffynnyddion yn aros yn gymesur.
79. Dadleuodd rhai atebwyr, megis Cymdeithas Marchnad Lloyds a Chymdeithas Yswirwyr Prydain, y byddai'r diwygiadau i'r Bil Mesothelioma, a oedd gerbron y Senedd ar y pryd, yn darparu cronfa i droi ati fel dewis olaf lle na fu'n bosibl canfod cyflogwr neu yswiriwr hydal fel diffynnydd. Awgrymwyd y byddai cronfa o'r fath yn dileu un o ffactorau risg sylweddol gwneud hawliad mesothelioma, ac y dylai fod ffioedd llwyddiant yn is yn y dyfodol i adlewyrchu'r risg is hwnnw.

Effaith debygol y diwygiadau LASPO ar hawliadau mesothelioma ymledol

80. Yn ogystal ag ystyried safbwyntiau a fynegwyd a thystiolaeth a ddarparwyd gan atebwyr i'r papur ymgynghori, mae'r Arglwydd Ganghellor hefyd wedi ystyried profiad cyffredinol y diwygiadau LASPO hyd yn hyn. Fel y nodwyd uchod (yn y Cyflwyniad i'r Rhan hon), y prif newidiadau y byddai'r diwygiadau hyn yn eu hachosi i achosion mesothelioma fyddai (1) nad yw ffioedd llwyddiant cytundebau ffioedd amodol (CFA) a (2) premiymau yswiriant ar ôl y digwyddiad (ATE) yn adenilladwy mwyach gan ddiffynnyddion sy'n colli, (3) y caiff iawndal cyffredinol ei gynyddu 10% a (4) y defnyddir symud costau unffordd amodol (QOCS). Ystyrir y rhain yn eu tro, ac yna ceir (5) casgliad.

(1) Ffioedd llwyddiant cytundebau ffioedd amodol (CFA)

81. Ar hyn o bryd, diffynnyddion aflwyddiannus sy'n talu unrhyw ffi llwyddiant CFA a godir gan gyfreithwyr sy'n gweithredu ar ran dioddefwyr mesothelioma. Dyma oedd y sefyllfa i bob achos CFA cyn i'r diwygiadau LASPO ddod i rym.
82. Ar hyn o bryd, mewn achosion mesothelioma, mae ffioedd llwyddiant yn dal i fod wedi'u capio'n gyffredinol ar 27.5% o gostau sylfaenol y cyfreithwyr mewn achosion sy'n setlo. Dyma yw effaith Rhan 45 y Rheolau Gweithdrefnau Sifil⁹. Os yw'r mater yn mynd i dreial, mae'r ffi llwyddiant wedi'i chapio ar 100%.
83. Ar ôl i'r diwygiadau LASPO ddod i rym ar gyfer achosion mesothelioma, bydd darpariaethau Deddf y Llysoedd a Gwasanaethau Cyfreithiol 1990 (fel y'i diwygiwyd) a Gorchymyn

⁹ Rheolau Gweithdrefnau Sifil, hen reol 45.24. Roedd y rheolau'n arfer darparu, ar gyfer hawliadau clefydau atebolrwydd cyflogwyr (ac yn benodol hawliadau dod i gysylltiad ag asbestos), y câi ffi llwyddiant mater sy'n setlo cyn treial neu cyn i hawliad gael ei gyflwyno ei chapio ar 27.5% o'r costau sylfaenol (neu 30% os yw wedi'i ariannu gan sefydliad aelodaeth). Mae'r rheolau wedi newid ers hynny, ond cadwyd eu heffaith ar gyfer achosion mesothelioma wrth aros am benderfyniad ynglyn â rhoi'r diwygiadau LASPO ar waith mewn achosion o'r fath.

Cytundebau Ffioedd Amodol 2013 yn berthnasol i achosion mesothelioma fel y maent yn berthnasol i bob achos anaf personol arall. Felly, bydd cyfreithwyr sy'n gweithredu ar ran hawlydd yn gallu codi hyd at 100% o gostau sylfaenol fel ffi llwyddiant, ond yn amodol ar gap cyffredinol sy'n pennu na chaiff y ffi llwyddiant mewn unrhyw achos anaf personol fod dros 25% o'r iawndal cyffredinol a adenillir (ac eithrio iawndal am golledion yn y dyfodol a gofal yn y dyfodol). Mae'r cap cyffredinol yn adlewyrchu un arall o argymhellion yr Arglwydd Ustus Jackson¹⁰ i ddiogelu iawndal hawlwyd mewn achosion anafiadau personol.

84. Yn amlwg, cyn gynted ag y daw'r diwygiadau LASPO i rym ac y bydd y rheolau sy'n berthnasol i ffioedd llwyddiant yn newid, mae'n bosibl y bydd cyfreithwyr hawlwyd yn newid eu hymagwedd at faint y ffioedd llwyddiant a godir. Efallai y bydd y pwyslais cryfach ar gyfiawnhau'r ffioedd a godir i hawlwyd yn arwain at ostyngiad – yn amlwg, bydd llai o gymhelliant i ostwng maint y ffi llwyddiant y cytunir arni gyda hawlwyd os mai'r diffynnydd sy'n ei thalu. Gellid dadlau bod cyfreithwyr ar hyn o bryd, o safbwynt masnachol, yn gweithredu'n effeithiol ar ffioedd llwyddiant 27.5% yn y rhan fwyaf o achosion ac felly nad oes rheswm i gredu y byddant yn cynyddu maint y ffi'n ddramatig ar unwaith. Gallai bodolaeth y cynllun digolledu newydd ar gyfer achosion heb eu holrhain, sy'n cynnwys elfen ar gyfer costau cyfreithiol yr hawlydd, leihau'r pwysau tuag i fyny ar faint y ffi llwyddiant mewn achosion lle ceir cyfreitha, oherwydd bydd llai o risg na cheir iawndal o ganlyniad i fethu ag olrhain y cyflogwr neu'r yswiriwr. Fel arall, efallai y bydd cyfreithwyr hawlwyd yn gweld rhyddhau'r cap 27.5% fel cyfle i gynyddu ffioedd llwyddiant ac y byddant felly'n cynyddu. Nid yw'n glir ar hyn o bryd sut y bydd y farchnad yn datblygu.
85. Nid yw'r Llywodraeth wedi cael llawer o awgrym hyd yn hyn bod y diwygiadau'n creu anawsterau mewn achosion eraill y maent eisoes yn berthnasol iddynt. Caiff y sefyllfa ei monitro fel rhan o'r adolygiad bwriadedig o fewn tair i bum mlynedd ar ôl rhoi'r Ddeddf LASPO ar waith.
86. Mae'r Llywodraeth hefyd yn cadw mewn cof bod costau sylfaenol cyfreithwyr (sydd â pherthynas uniongyrchol â'r ffi llwyddiant) ynndynt eu hunain wedi'u rheoli'n ofalus ym maes cyfreitha sifil, drwy gyfrwng proses o asesu costau. Hefyd, ers mis Ebrill 2013, mae darpariaethau newydd rheoli costau Rhan 3 y Rheolau Gweithdrefnau Sifil yn ceisio rheoli'n ddichonol y costau y gellid eu hachosi.
87. Yr effaith ar ddiffynnyddion fyddai lleihau'r costau y mae'n rhaid iddynt eu talu mewn achosion y maent yn eu colli, oherwydd ni fyddai ffi llwyddiant cyfreithiwr yr hawlydd yn adenilladwy mwyach.

(2) Yswiriant ar ôl y digwyddiad (ATE)

88. Bydd defnyddio'r diwygiadau LASPO ar gyfer achosion mesothelioma hefyd yn golygu na fydd unrhyw breimymau yswiriant ATE a gymerodd yr hawlydd mwyach yn adenilladwy gan ddiffynnydd sy'n colli. Mae yswiriant ATE yn amddiffyn yr hawlydd rhag atebolrwydd i dalu costau diffynnydd llwyddiannus pe bai'r hawlydd yn colli; mae hefyd yn gallu dalu costau taliadau.
89. Roedd yr Arglwydd Ustus Jackson o'r farn bod trefn o breimymau yswiriant ATE adenilladwy'n 'ddigyfiawnhad'¹¹. Fodd bynnag, cydnabu fod angen amddiffyn hawlwyd mewn achosion anafiadau personol rhag gorchmynion costau anffafriol. Felly, argymhellodd ddiddymu adennill premiymau ATE gan y diffynnydd sy'n colli, ond gychwyn trefn newydd o

¹⁰ Para 5.3, t.112 Adroddiad Terfynol

¹¹ Para 4.1, t.188 Adroddiad Terfynol

symud costau unffordd amodol (QOCS) – gweler isod. Roedd hefyd yn glir bod rhaid i unrhyw drefn o'r fath ar gyfer cyfreitha anafiadau personol gynnwys cymhellion i hawlwyd dderbyn cynigion rhesymol¹², sy'n ymwneud â'r drefn dan Ran 36 y Rheolau Gweithdrefnau Sifil (cynigion i setlo), gan gynnwys negodi heb anfantais rhwng partïon i wneud a derbyn cynigion rhesymol ar gyfer setliad.

90. Nid yw'n ofynnol i hawlwyd gymryd yswiriant ATE. Er bod y Llywodraeth yn cydnabod y gallai llawer ohonynt barhau i ddewis gwneud hynny oherwydd 'risg Rhan 36'¹³ neu gost taliadau, mae'n anochel y bydd y symiau y bydd yswiriant yn talu amdanynt yn is nag o'r blaen. Mae QOCS yn fwiadol yn peidio â dileu risg Rhan 36, er mwyn annog derbyn cynigion rhesymol. Fodd bynnag, bydd cymhellion Rhan 36 yn anghymell diffynyddion rhag gwneud cynigion afresymol, ac ni fydd gwrthod cynnig afresymol o'r fath yn peri risg i hawlwyd. Mae yswiriant ATE yn dal i fod ar gael, ac mae cynhyrchion yn bodoli i leihau'r risgiau hyn ym maes cyfreitha anafiadau personol yn gyffredinol, gan gynnwys un lle na fydd hawlwyd ond yn talu'r premiwm mewn achosion llwyddiannus (h.y. lle mae'n ennill iawndal y gellir didynnu'r premiwm ohono).
91. Wrth wneud hawliad, bydd angen talu taliadau (am adroddiadau gan arbenigwyr, er enghraifft) ar wahanol adegau yn y broses. Lle mae'r hawliad yn llwyddiannus, bydd taliadau rhesymol yn parhau i fod yn adenilladwy yn erbyn diffynydd sy'n colli ar ôl i'r diwygiadau LASPO gael eu cyflwyno, felly bydd y sefyllfa'n aros fel y mae ar hyn o bryd. Bydd angen ariannu taliadau yn yr un ffordd ag mewn achosion anafiadau personol eraill y mae'r diwygiadau LASPO eisoes yn berthnasol iddynt – gall hyn fod gan yr hawlwyd, y cynrychiolydd cyfreithiol, yswiriant cyn y digwyddiad (BTE) neu yswiriant ATE.¹⁴
92. Yr effaith ar ddiffynyddion fyddai lleihau'r costau y mae'n rhaid iddynt eu talu am y premiwm yswiriant ATE mewn achosion y maent yn eu colli. Fodd bynnag, ni fyddent yn gyffredinol yn adennill eu costau eu hunain gan yr hawlwyd mwyach (neu gan yswiriwr yr hawlwyd) mewn achosion y byddai'r diffynydd yn eu hennill.

(3) Cynnydd 10% mewn iawndal cyffredinol

93. Os defnyddir y diwygiadau LASPO ar gyfer achosion mesothelioma, bydd hyn yn sbarduno cynnydd 10% ychwanegol mewn iawndal cyffredinol am golledion anariannol megis poen, dioddefaint a cholli mwynder y byddai gan yr hawlwyd hawl i'w cael yn unol â dyfarniad Llys Apêl, *Simmons v Castle*¹⁵. Argymhellwyd hyn gan yr Arglwydd Ustus Jackson¹⁶ yn benodol er mwyn cynorthwyo hawlwyd anafiadau personol i dalu costau ffi llwyddiant allan o'u hiawndal. Argymhelliad cyffredinol ar gyfer achosion anafiadau personol oedd hwn, gyda'r bwriad o sicrhau na fyddai hawlwyd yn gyffredinol mewn sefyllfa waeth o ganlyniad i orfod talu ffioedd o'r fath. Nid yw'r cynnydd yn berthnasol i achosion mesothelioma ar hyn o bryd; dim ond i sefyllfaoedd lle mae'r diwygiadau LASPO wedi'u defnyddio mewn gwirionedd y mae'n berthnasol.

¹² Para 4.5, t.189 Adroddiad Terfynol

¹³ Risg talu costau diffynydd a achosir ar ôl dyddiad y cynnig, lle mae'r diffynydd wedi gwneud cynnig Rhan 36 i setlo, mae'r hawlwyd wedi'i wrthod ac nid yw wedi'i guro mewn treial wedi hynny. Lle defnyddir QOCS, telir costau o'r fath drwy eu gwrthbwysu yn erbyn iawndal ac nid ydynt yn orfodadwy (yn absenoldeb twyll, ac ati) i'r graddau eu bod yn fwy na'r iawndal.

¹⁴ Mae premiymau ATE yn parhau, yn eithriadol, yn adenilladwy gan ddiffynyddion sy'n colli ar gyfer rhai adroddiadau gan arbenigwyr am esgeulustod clinigol dan adran 46 Deddf LASPO yn unig.

¹⁵ [2012] EWCA Civ 1288, i ddilyn y penderfyniad cynharach yn yr achos hwnnw a adroddwyd yn [2012] EWCA Civ 1039

¹⁶ Para 6.1(ii), t.116 Adroddiad Terfynol

94. Awgrymodd rhai atebwyr fod y cynnydd hwn yn 'rithiol'. Fodd bynnag, mae'r cynnydd nawr yn cael ei ddefnyddio'n gyfreithiol, wedi i benderfyniadau Llys Apêl *Simmons*¹⁷ roi'r argymhelliad ar waith yn effeithiol. Mae gan hawlydd hawl i gael y cynnydd hwn fel rhan o'r dyfarniad iawndal cyffredinol, a rhaid i farnwr y treial ei ddefnyddio. Yn yr un modd, wrth gynghori am setliad, tasg cynghorwyr cyfreithiol yr hawlydd yw sicrhau bod y cynnydd 10% yn cael ei ystyried yn briodol yn y setliad terfynol.
95. Mae Canllawiau'r Coleg Barnwrol, y mae'r llysoedd ac ymarferwyr yn cyfeirio atynt wrth asesu iawndal cyffredinol, yn nodi bod iawndal cyffredinol am hawliadau mesothelioma rhwng £51,500 a £92,500. Felly, bydd y cynnydd 10% yn rhoi swm ychwanegol i'r hawlydd rhwng £5,150 a £9,250 (gan ddibynnu ar yr amgylchiadau penodol) i dalu am yr elfen ar gostau cyflwyno eu hachos y byddant yn atebol amdani dan y drefn LASPO, pan fyddant yn ennill (neu'n setlo) eu hachos.
96. Gan mai diffynyddion sy'n colli sy'n talu iawndal, yr effaith fyddai cynyddu swm yr iawndal y mae'n rhaid iddynt ei dalu i hawlwr.

(4) Symud costau unffordd amodol (QOCS)

97. Bydd defnyddio'r diwygiadau LASPO mewn achosion mesothelioma'n golygu y bydd y drefn bresennol o symud costau unffordd amodol (QOCS) ar gyfer achosion anafiadau personol yn cael ei hymestyn i gynnwys achosion mesothelioma hefyd. Cyflwynwyd trefn diogelu costau newydd mewn achosion anafiadau personol pan ddaeth y diwygiadau LASPO i rym yn gyffredinol ar 1 Ebrill 2013. Mae'r drefn QOCS hon yn darparu diogelwch i gyfyngu ar y costau y gallai fod rhaid i hawlydd eu talu i'r diffynnydd. Bydd diffynnydd sy'n colli'n dal i fod yn atebol am gostau'r hawlydd yn y ffordd arferol. Lluniwyd QOCS fel dull mwy cymesur o ddiogelu hawlwr sy'n colli rhag gorfod talu costau diffynnydd â llawer mwy o adnoddau na'r drefn yswiriant ATE a oedd wedi datblygu. Derbyniodd y Llywodraeth argymhelliad yr Arglwydd Ustus Jackson y dylid cyflwyno trefn QOCS mewn achosion anafiadau personol¹⁸, a daeth y rheolau perthnasol i rym ar 1 Ebrill 2013¹⁹. Nid yw QOCS yn berthnasol i achosion mesothelioma ar hyn o bryd, ond mae'n berthnasol i achosion anafiadau personol eraill, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud ag anafiadau trychinebus.
98. Mae cyfyngiadau ar sut y caiff QOCS ei ddefnyddio, er enghraifft mewn perthynas â 'risg Rhan 36'. Hefyd, gellir colli diogelwch QOCS, er enghraifft os yw hawliad yn anonest yn sylfaenol, os nad yw'n datgelu unrhyw sail resymol, neu os yw'n camddefnyddio proses y llys.
99. Mae hawlwr yn elwa o QOCS gan ei fod yn cyfyngu ar y costau y gallai fod rhaid iddynt eu talu fel arall. Ar y llaw arall, mae'n cyfyngu ar y costau y gallai diffynyddion eu hadennill gan hawlwr mewn achosion y bydd diffynyddion yn eu hennill.

(5) Casgliad

100. Roedd paragraff 65 y papur ymgynghori'n nodi y câi ymatebion eu defnyddio i gynorthwyo'r Llywodraeth i asesu effaith debygol y diwygiadau LASPO pe cânt eu defnyddio mewn hawliadau mesothelioma. Er bod llawer o atebwyr wedi mynegi pryder cyffredinol y byddai defnyddio'r diwygiadau LASPO yn cyfyngu ar allu hawlwr i gael cyfiawnder, nid yw'r

¹⁷ A gweler 12^{fed} Rhifyn *Canllawiau'r Coleg Barnwrol ar gyfer Asesu Iawndal Cyffredinol mewn Achosion Anafiadau Personol*, sy'n 'cynnwys canllawiau am y cynnydd 10%'. OUP 2013.

¹⁸ Ni wnaeth y Llywodraeth dderbyn yr argymhelliad i gyflwyno QOCS y tu hwnt i achosion llys anafiadau personol, ond dywedasant y byddent yn parhau i adolygu'r sefyllfa. Ers hynny, maent wedi dweud y caiff QOCS ei ymestyn i achosion difenwad ac achosion preifatrwydd.

¹⁹ Rhan 44.13 i 44.17 y Rheolau Gweithdrefnau Sifil.

Llywodraeth yn argyhoeddedig bod rhai nodweddion penodol o'r broses gyfreitha ar gyfer hawliadau mesothelioma'n mynnu dull arbennig yn benodol o ran ariannu cyfreitha a chostau'r hawliadau hyn.

101. Pan ddefnyddir y diwygiadau LASPO mewn achosion mesothelioma, ni fydd rhaid i'r diffynnydd dalu unrhyw ffi llwyddiant; yr hawlydd fyddai'n gorfod ei thalu allan o'r iawndal a adenillwyd. Gallai'r hawlydd ddewis cael yswiriant ATE, er y bydd QOCS – a fydd yn berthnasol cyn gynted â bod y diwygiadau LASPO ar waith – yn lleihau'r costau anffafriol y gallai hawlydd eu hwynebu. Byddai angen i hawlydd dalu taliadau, fel mewn unrhyw achos anaf personol arall. Yn gyffredinol, bydd y cynnydd 10% mewn iawndal cyffredinol yn arwain at ddyfarniad ychwanegol rhwng £5,150 a £9,250. Dadleuodd yr Arglwydd Ustus Jackson na fyddai ei gynigion yn y rhan fwyaf o achosion 'yn gadael hawlwy'r llwyddiannus mewn sefyllfa waeth nag y maent dan y drefn bresennol, a byddent hefyd yn sicrhau mai dim ond costau cyfreithiol normal a chymesur i hawlwy'r llwyddiannus y mae diffynnyddion aflwyddiannus yn eu talu.²⁰
102. Nid yw'r Llywodraeth yn argyhoeddedig bod tystiolaeth wedi'i darparu sy'n rhoi rheswm cymhellol pam na ddylid ymestyn y diwygiadau LASPO i achosion mesothelioma o ran y costau tebygol y byddai hawlwy'r mesothelioma'n debygol o'u hwynebu cyn gynted ag y caiff y diwygiadau LASPO eu rhoi ar waith.
103. Wrth baratoi'r dadansoddiad cost a budd o roi'r diwygiadau ar waith ar gyfer achosion mesothelioma i'w gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymateb i'r ymgynghoriad, ystyriodd y Llywodraeth y dystiolaeth a oedd ar gael o adroddiad NIESR a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014. Mae'r dystiolaeth honno'n tueddu i ategu'r casgliad hwn. Mae manylion pellach ar gael yn yr asesiad cost a budd cysylltiedig (Atodiad B).
104. Wrth gwrs, mae rhai ffactorau newidiol ac ansicr o fewn gwahanol achosion mesothelioma, a rhwng y sefyllfaoedd cyn ac ar ôl defnyddio'r diwygiadau LASPO. Mae'n amhosibl dweud y byddai pob hawlydd mesothelioma mewn sefyllfa well yn unol â'r diwygiadau LASPO, ond nid yw'r dystiolaeth bresennol yn dangos y byddai hawlwy'r yn gyffredinol mewn sefyllfa waeth dan y diwygiadau.

4. Natur yr adolygiad adran 48, a pherthnasedd y Bil Mesothelioma

105. Rhoddir sylw i'r pwyntiau hyn gan eu bod wedi'u codi gan nifer o'r atebwyr a oedd yn feirniadol o'r cynigion yn y papur ymgynghori.
106. Dadleuodd rhai atebwyr nad oedd yr ymgynghoriad yn bodloni gofynion adran 48, ac nad oedd ychwaith yn glir o'r ymgynghoriad bod gofyn iddynt roi gwybodaeth a thystiolaeth ynglŷn â'r adolygiad ei hun. Oherwydd hyn, dywedodd rhai atebwyr y dylai'r Llywodraeth gyhoeddi ymgynghoriad newydd am yr adolygiad adran 48.
107. Nid yw'r Llywodraeth yn cytuno â'r naill na'r llall o'r gosodiadau hyn. Mae'n glir ym mharagraff 65 y ddogfen ymgynghori bod atebwyr wedi cael gwybod yn glir am ba faterion y ceisiwyd eu barn, ac am y penderfyniadau perthnasol y byddai eu tystiolaeth yn sail iddynt. Roedd paragraff 65 yn gofyn am dystiolaeth am y cwestiwn 'effaith debygol' yn adran 48 ac yn ei gwneud yn glir y câi casgliadau eu ffurfio am effaith debygol bwrw ymlaen ag adran 44 ac adran 46, ac am y penderfyniad i fwrw ymlaen â'r darpariaethau hynny ai peidio, yng ngoleuni'r hyn a ddywedodd yr atebwyr am y mater. Ni roddodd atebwyr lawer o fanylion am sut yr oedd yr adolygiad yn methu â bodloni'r gofyniad statudol, heblaw

²⁰ Para 2.4, tudalen xvii, Adroddiad Terfynol

Cymdeithas y Gyfraith a ddadleuodd nad oedd cwestiwn ymgynghoriad yn debygol 'o gynhyrchu'r data a'r dadansoddiad manwl sydd eu hangen i gynnal asesiad boddhaol'. Ym marn y Llywodraeth, cafodd atebwyr gyfle llawn i roi sylw penodol i bwyntiau yr hoffent eu gwneud ynglŷn â'r adolygiad adran 48 ac am y cwestiwn ar wahân, ond cysylltiedig, am fwrw ymlaen â'r diwygiadau costau LASPO ar gyfer achosion mesothelioma.

108. Mae'r Llywodraeth yn credu mai ymgynghoriad cyhoeddus llawn oedd y ffordd gywir o gynnal yr adolygiad, a bod yr adolygiad yn unol â'r ymrwymadau a roddwyd i'r Senedd, er enghraifft, y gallai dioddefwyr gyfrannu at yr adolygiad²¹. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros ddeg wythnos yn unol ag egwyddorion ymgynghori'r Llywodraeth. Fel y nodwyd uchod, cafwyd 105 o ymatebion, gan gynnwys llawer gan gynrychiolwyr dioddefwyr asbestos a chyfreithwyr hawlwyd.
109. Nododd nifer o atebwyr na allent weld sut yr oedd y Bil Mesothelioma, y cyfeiriwyd ato yng nghwestiwn 15, yn berthnasol i ystyried effaith debygol y diwygiadau LASPO ar achosion mesothelioma 'wedi'u holrhain' – mewn geiriau eraill, rhai lle ceir diffynnydd hydol i wneud hawliad yn ei erbyn. Mae'r mater hwn hefyd wedi'i godi mewn cwestiynau Seneddol²².
110. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod darpariaethau'r Bil Mesothelioma'n ymwneud yn benodol ag achosion heb eu holrhain, ac felly nad ydynt yn uniongyrchol berthnasol i'r achosion wedi'u holrhain sy'n destun yr adolygiad adran 48. Wrth gynnal yr adolygiad adran 48, roedd y Llywodraeth yn ystyried yn bennaf 'achosion sy'n ymwneud â hawliad am iawndal mewn perthynas â mesothelioma ymledol'. Fel y nodwyd uchod, dadleuodd rhai atebwyr y byddai dyfodiad y cynllun 'heb ei olrhain' yn gwneud gwahaniaeth i'r risgiau y bydd cyfreithwyr yn eu cymryd wrth ymgymryd â hawliad mesothelioma, ac y dylai hynny dros amser arwain at duedd tuag i lawr yn lefel y ffioedd llwyddiant a godir. Fodd bynnag, er bod y Llywodraeth yn nodi bod hynny'n effaith bosibl, nid ydynt wedi gallu asesu'r effaith honno ar hyn o bryd.
111. Fodd bynnag, mae'r Bil Mesothelioma'n berthnasol i amseru dechrau'r diwygiadau i LASPO ar gyfer hawliadau mesothelioma ymledol, oherwydd bwriad y Llywodraeth erioed oedd gwneud unrhyw benderfyniad o'r fath mewn modd cydamserol gyda diwygiadau eraill gyda'r bwriad o wella sefyllfa dioddefwyr mesothelioma. Gwnaethpwyd hyn yn glir pan gytunodd y Senedd â'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd 2012²³.

5. Y penderfyniad i fwrw ymlaen â'r diwygiadau LASPO

112. Ar ôl cynnal adolygiad o effaith debygol y diwygiadau LASPO ar hawliadau mesothelioma, cododd Rhan 4 y papur ymgynghori y posibilrwydd o fwrw ymlaen ag adrannau 44 a 46 LASPO ar gyfer yr achosion hyn, gan geisio safbwyntiau am hynny hefyd.
113. Mae'r Llywodraeth yn credu y dylid bwrw ymlaen â'r diwygiadau LASPO. Nid ydynt yn argyhoeddedig bod achos wedi'i wneud i beidio ag ymestyn y diwygiadau LASPO i bob achos anafiadau personol drwy gynnwys achosion mesothelioma hefyd.
114. Wrth wneud penderfyniad am fwrw ymlaen, mae'r Llywodraeth wedi ystyried yn arbennig a fu unrhyw dystiolaeth bod nodweddion perthnasol achosion mesothelioma'n golygu bod

²¹ Gweler, er enghraifft, sylwadau'r Arglwydd McNally yn ystod achos llys y Bil LASPO, Adroddiad Swyddogol Tŷ'r Arglwyddi, 25 Ebrill 2012 yng ngholofn 1824

²² Adroddiad Swyddogol Tŷ'r Arglwyddi, 25 Tachwedd 2013, col. WA107

²³ Adroddiad Swyddogol Tŷ'r Arglwyddi, 24 Ebrill 2012, col. 839; Adroddiad Swyddogol Tŷ'r Arglwyddi, 25 Ebrill 2012, col. 1817.

angen eu trin yn wahanol i achosion anafiadau personol eraill o ran trefniadau costau ac ariannu.

115. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod natur drasig y clefyd, sy'n anochel yn angheuol o fewn cyfnod byr. Felly, mae diagnosis yn fater poenus a thrallodus iawn i ddioddefwyr a'u teuluoedd, gan fod y dyfodol yn sydyn yn troi'n ddychrynlyd ac yn ansicr.
116. Fodd bynnag, mae'r diwygiadau LASPO eisoes yn berthnasol i bob achos anaf personol arall (ac yn wir i bob achos sifil arall)²⁴. Cafodd y diwygiadau eu cyflwyno i reoli costau uchel gan ganiatáu cyfiawnder i achosion teilwng; eu bwriad yw creu system decach a mwy cymesur – gan gydbwyso buddiannau hawlwr a diffynyddion – sy'n rhoi mwy o anogaeth i ddatrys achosion yn gynnar. Er ei bod wrth gwrs yn wir bod llawer o achosion anafiadau personol yn llawer llai difrifol nag achosion mesothelioma, mae'r diwygiadau eisoes yn berthnasol i achosion difrifol iawn eraill sy'n newid bywydau. Mae achosion o'r fath yn cynnwys rhai lle ceir anafiadau trychinebus, gofynion am ofal gydol oes, lleihad i ddisgwyliad oes ac effaith sylweddol ar ansawdd bywyd. Weithiau, mae'r achosion yn ymwneud â phobl ifanc iawn. Mae'r achosion hyn hefyd yn creu trychineb, ansicrwydd a thrallod i ddioddefwyr a'u teuluoedd mewn llawer o wahanol ffyrdd. Maent hefyd yn creu eu hanawsterau eu hunain o ran cyfreitha, megis anghydfodau am dystiolaeth ynglŷn â diagnosis, prognosis neu ofal yn y dyfodol.
117. Mae'r Llywodraeth wedi bwrw ymlaen ag argymhellion yr Arglwydd Ustus Jackson fel y ffordd gywir o unioni costau uchel cyfreitha sifil. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod angen cyfiawnhad penodol a digonol i barhau i drin achosion mesothelioma'n wahanol i achosion anafiadau personol eraill, yn enwedig yr achosion difrifol hynny a ddisgrifir uchod.
118. Yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ni chafwyd llawer o sôn am nodweddion arbennig y broses hawliadau mesothelioma a ddylai arwain at ofyniad i'r achosion hyn barhau i gael triniaeth arbennig o ran trefniadau costau ac ariannu.
119. Felly, mae'r Llywodraeth wedi dod i'r casgliad y dylid bwrw ymlaen ag adrannau 44 a 46 Deddf LASPO ar gyfer achosion mesothelioma. Maent yn cynnig cydamseru hyn â gwneud y taliadau cyntaf dan y darpariaethau sydd nawr wedi'u cynnwys yn Neddf Mesothelioma 2014; disgwylir y bydd hynny ym mis Gorffennaf 2014.
120. Wrth ffurfio'r casgliad hwn, mae'r Llywodraeth yn credu ei bod yn briodol defnyddio'r diwygiadau costau yn yr achosion hyn heb fwrw unrhyw amheuaeth ar y drychineb personol ofnadwy y mae diagnosis mesothelioma'n ei hachosi i'r dioddefwr a'r teulu.

²⁴ Mae hyn dros dro yn eithrio achosion cyhoeddi ac achosion preifatrwydd, ac achosion sy'n ymwneud ag achosion ansolfedd, ac yn gysylltiedig â hwy.